## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chreu a rheoli cyfrifon digidol ar-lein. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i'ch ffordd, cofrestru manylion cyfrifon newydd a rheoli cyfrifon. Mae'n cynnwys y camau sydd eu hangen i greu cyfrifon ar-lein ar gyfer ystod o systemau gan gynnwys bancio a chyllid ar-lein, cyfrifon manwerthu, gwasanaethau'r llywodraeth gan gynnwys cyfrifon treth a dysgu. Mae hefyd yn cynnwys gwirio a rheoli cyfrifon, diweddaru manylion a chau cyfrifon. Mae'r safon hon ar gyfer y rhai sydd angen creu a rheoli cyfrifon digidol ar-lein i ddiwallu eu hanghenion eu hunain neu yn rhan o'u dyletswyddau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Nodi gofynion cyfrifon ar-lein gyda rhanddeiliaid
2. Adolygu cyfarwyddiadau ymuno a gofynion data i drefnu paratoadau'n gywir ar gyfer cofrestru cyfrif ar-lein yn gywir
3. Cadarnhau diogelwch safle'r cyfrif ar-lein yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
4. Sganio dogfennau adnabod yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
5. Cofrestru cyfrifon newydd yn ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r darparwr
6. Gosod mynediad at gyfrif ychwanegol yn ddiogel ar ddyfeisiau symudol yn unol â gofynion sefydliadol
7. Profi bod mynediad at gyfrif yn gweithredu'n gywir
8. Monitro a rheoli manylion cyfrif yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
9. Cynhyrchu ac argraffu crynodebau ac adroddiadau cyfrifon yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Prif egwyddorion gosod a gweithredu cyfrifon digidol ar-lein
2. Ble i gael gwybodaeth am gyfrif gan gynnwys cyfarwyddiadau ymuno
3. Y wybodaeth sydd ei hangen i gyflwyno cais i gofrestru cyfrif ar-lein
4. Sut i goladu gofynion gwybodaeth ar gyfer cofrestru
5. Sut i sganio a storio dogfennau adnabod gan gynnwys pasbortau a thrwyddedau gyrru
6. Sut i wirio sganiau dogfennau adnabod i fodloni gofynion lanlwytho ffeiliau
7. Sut i ddewis a lanlwytho ffeiliau adnabod yn rhan o broses cofrestru cyfrifon ar-lein
8. Sut i lenwi ffurflenni cofrestru ar-lein manwl
9. Yr angen i wirio a chadarnhau manylion cofrestru cyfrif
10. Sut i gadarnhau diogelwch gwefan cyfrif ar-lein
11. Beth yw ystyr dilysu aml-ffactor
12. Y dulliau a ddefnyddir i gadarnhau hunaniaeth yn rhan o ddull dilysu aml-ffactor
13. Sut i osod mynediad at gyfrif ar ddyfeisiau symudol
14. Pwysigrwydd defnyddio cyfrineiriau unigryw cryf ar gyfer cyfrifon ar-lein
15. Pwysigrwydd profi dulliau mewngofnodi a mynediad at gyfrifon
16. Sut i gau cyfrif ar-lein

17.
Sut i gynhyrchu ac argraffu crynodebau statws cyfrif a thrafodion

Creu a rheoli cyfrifon digidol ar-lein

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | e-skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ODAG Consultants Ltd. |
| **RCU gwreiddiol** | TECHDUDT2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | TGCh i ddefnyddwyr |
| **Cyfres/Set** | Defnyddwyr TG |
| **Geiriau Allweddol** | cyfrifon digidol ar-lein |